Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Elin Jones AS, Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Dyddiad | Date: 25 Mehefin 2020

Pwnc | Subject: **Cais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc**

Annwyl Elin,

Bydd y Pwyllgor Busnes yn ymwybodol bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi bod yn gwneud gwaith craffu manwl ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc yn ystod y misoedd diwethaf.

Diolch i'r drefn, mae'n ymddangos bod plant a phobl ifanc yn llai agored i'r feirws nag oedolion. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth o'r dystiolaeth sydd wedi dod i law fod effeithiau ehangach COVID-19, yn ogystal â'r camau i reoli'r feirws, wedi cael effaith sylweddol ar eu bywydau. Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus i sicrhau nad ydym yn colli gafael ar ddull sy'n seiliedig ar hawliau plant yn y broses o reoli'r pandemig, nac yn ein gwaith craffu fel Senedd.

Mewn cyfarfod diweddar, dywedodd paediatregydd blaenllaw wrth y Pwyllgor:

> "What they (children and young people) have been affected by quite greatly is, if I could call it, collateral damage—their schools have been closed, their clubs have been shut, they can't socialise. All those things have affected children, and they're very anxious, because there's a lot of worry about coronavirus, which they're hearing about—their grandparents might have died, or they're hearing that thousands of people have died."

Ar y sail hon, ac o gofio'r cyhoeddiad y bydd plant yng Nghymru yn raddol yn dychwelyd i'w hysgolion cyn bo hir, credwn y dylai Aelodau o'r Senedd gael cyfle i drafod y materion perthnasol cyn toriad yr haf fel mater o flaenoriaeth.

I sicrhau bod ein gwaith craffu wedi cyfrannu mewn modd amserol ac ystyrlon at ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig, rydym wedi gohebu'n rheolaidd â Gweinidogion Cymru. Rydym wedi cyhoeddi llythyrau yn lle cyhoeddi adroddiadau i ystwytho'n gwaith a chynyddu ei effeithiolrwydd.

Os caiff ein cais ei dderbyn, ein nod fyddai gosod adroddiad interim wythnos cyn y ddadl i roi gwybod i'r Aelodau am ganfyddiadau ein gwaith craffu hyd yma, ac i nodi'r holl ymatebion sydd wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru. Yr opsiwn rydym yn ei ffafrio'n gryf yw cynnal dadl 60 munud o hyd, ond rydym yn derbyn bod y llwyth gwaith yn y Cyfarfod Llawn ar hyn o bryd o bosibl yn golygu mai dim ond 30 munud fyddai ar gael ar gyfer y ddadl.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

Cofion cynnes,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.